***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1100 (Cy.117) (C.45)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 2 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 269(3) ac (8) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**):

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

### Y diwrnod penodedig

**2.**—(1) 10 Mai 2013 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn i rym—

(a) adran 2;

(b) adran 7;

(c) adran 8;

(d) adran 9;

(e) adran 10;

(f) adran 18;

(g) adran 19;

(h) adran 20;

(i) adran 21;

(j) adran 22;

(k) adran 28;

(l) adran 29;

(m) adran 30; ac

(**1**) 2009 p. 22.

(n) adran 31.

(2) 10 Mai 2013 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn i rym i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru—

(a) adran 11;

(b) adran 12; ac

(c) adran 39.

*Jeff Cuthbert*
O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

2 Mai 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r pedwerydd Gorchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) ("Deddf 2009") sy'n dwyn darpariaethau penodol yn Neddf 2009 i rym. Disgrifir y darpariaethau isod.

Mae adran 2 yn nodi'r amgylchiadau pan fo person yn cwblhau prentisiaeth Gymreig mewn perthynas â fframwaith prentisiaeth. Y gofyniad yw bod y person yn bodloni'r amodau cwblhau Cymreig safonol neu'r amodau cwblhau Cymreig amgen.

Mae adrannau 7 i 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch dyroddi tystysgrifau prentisiaethau. Yn benodol, mae adran 10 yn darparu mai'r awdurdod ardystio ar gyfer prentisiaethau fydd personau a ddynodir at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru neu Weinidogion Cymru eu hunain.

Mae adran 11 yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn tystysgrif brentisiaeth.

Mae adran 12 yn ddarpariaeth ddehongli sy'n diffinio "apprenticeship framework".

Mae adrannau 18 i 22 yn ymwneud â fframweithiau prentisiaethau. Yn benodol, mae adran 18 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi person i ddyroddi fframweithiau prentisiaethau, mewn perthynas â sector penodol. Mae'r adrannau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi fframweithiau prentisiaethau.

Mae adrannau 28 i 31 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â phennu safonau prentisiaethau. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru lunio safonau drafft a bennir ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, ac ymgynghori arnynt.

Mae adran 39 yn ddarpariaeth ddehongli sy'n diffinio'r termau a ddefnyddir ym Mhennod 1 o Ran 1 o Ddeddf 2009.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009") yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2009 hefyd wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr yn unig drwy'r Offerynnau Statudol a ganlyn: O.S. 2010/303, O.S. 2011/200.

Gweler hefyd adran 269(1) o Ddeddf 2009 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 12 Tachwedd 2009 (y diwrnod y pasiwyd Deddf 2009).

Gweler hefyd adran 269(2) o Ddeddf 2009 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 12 Ionawr 2010 (ar ddiwedd cyfnod o ddau fis gan ddechrau ar y dyddiad y pasiwyd Deddf 2009).

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| adran 49 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2011/829 (Cy.124) |
| adran 50 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2011/829 (Cy.124) |
| adran 51 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2011/829 (Cy.124) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| adran 52 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2011/829 (Cy.124) |
| adran 174 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2010 | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |
| adran 192 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2010 | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |
| adran 205 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3341 (Cy. 292) |
| adran 259 | 1 Hydref 2010 | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |
| adran 266 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2010 | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |
| Atodlen 6 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2011/829 (Cy.124) |
| Atodlen 12 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2010 | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |
| Atodlen 14 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3341 (Cy. 292) |
| Atodlen 16 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2010 yn rhannol ac 1 Hydref 2010 yn rhannol | O.S. 2010/2413 (Cy.207) |

Mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2009 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| adran 1 | 6 Ebrill 2011 | O.S. 2011/200 |
| adrannau 3 i 6 | 6 Ebrill 2011 | O.S. 2011/200 |
| adrannau 13 i 16 | 1 Mawrth 2011 | O.S. 2011/200 |
| adran 17 | 6 Ebrill 2011 | O.S. 2011/200 |
| adrannau 23 i 27 | 30 Medi 2010 | O.S. 2010/2374 |
| adrannau 32 i 36 | 6 Ebrill 2011 (o ran Lloegr ) ac 1 Awst 2011 (o ran Cymru) | O.S. 2011/200 |
| adran 37 | 6 Ebrill 2011 | O.S. 2011/200 |
| adran 38 | 1 Mawrth 2011 | O.S. 2011/200 |
| adran 40 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 41 i 44 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 46 a 47 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 53 a 54 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 55 a 56 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adran 57 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adran 59 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010 ac 1 Ebrill 2010 | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| adrannau 60 i 90 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 100 i 104 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adran 105 | 6 Ebrill 2011 | O.S. 2011/200 |
| adrannau 106 i 111 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| adran 112 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010 ac 1 Ebrill 2010 | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| adrannau 113 i 124 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adran 125 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| adran 126 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adrannau 127 i 144 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 147 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 148 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adrannau 149 i 154 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adrannau 56 a 157 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 158 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 159 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 160 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adrannau 161 i 173 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 174 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adrannau 175 i 177 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 178 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/1151 |
| adran 179 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 180 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adrannau 181 i 191 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 192 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| adran 193 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| adran 194 | 26 Chwefror 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2010/303 |
| adran 195 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adrannau 196 a 197 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adran 202 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) a 28 Chwefror 2011 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/2374 |
| adrannau 203 a 204 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| adrannau 206 i 224 | 19 Ebrill 2010 (yn rhannol) ac 1 Medi 2010 (yn rhannol) | O.S. 2010/303 ac O.S. 2010/1151 |
| adran 225 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| adran 226 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adrannau 227 i 241 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adrannau 242 i 245 | 1 Medi 2010 | O.S. 2010/303 |
| adran 249 (yn rhannol) | 1 Medi 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 251 i 255 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adran 256 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| adrannau 257 a 258 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adran 261 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| adran 266 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010 ac 1 Ebrill 2010 | O.S. 2009/3317, O.S. 2010/303 ac O.S. 2010/1151 |
| Atodlen 1 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010, 1 Ebrill 2010 ac 1 Medi 2010 | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| Atodlenni 4 i 7 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/303 |
| Atodlen 8 | 12 Ionawr 2010 (yn rhannol) ac 1 Ebrill 2010 (at y dibenion sy'n weddill) | O.S. 2009/3317 ac O.S. 2010/303 |
| Atodlenni 9 i 11 | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| Atodlen 12 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | O.S. 2010/1151 |
| Atodlen 13 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| Atodlen 15 | 12 Ionawr 2010 | O.S. 2009/3317 |
| Atodlen 16 (yn rhannol) | 12 Ionawr 2010, 1 Ebrill 2010, 19 Ebrill 2010 ac 1 Medi 2010 | O.S. 2009/3317, O.S. 2010/0303 ac O.S. 2010/1151 |